

CFfG/2022/ Cyfarfod 1af

Y COMISIWN FFINIAU I GYMRU

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 16:30 ddydd Llun 7 Chwefror 2022 trwy gyfrwng Microsoft Teams.

Yn bresennol:

Mrs Ustus Jefford

Dirprwy Gadeirydd

Neil Park
Aaron Sollis

Asesydd (y Swyddfa Ystadegau Gwladol)
Asesydd (Arolwg Ordnans)

Huw Vaughan Thomas
Sam Hartley

Comisiynydd
Comisiynydd

Shereen Williams
Tom Jenkins
Rhydian Fitter
Carys Vaughan

Ysgrifennydd y Comisiwn
Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn
Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn
Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn

Amser Dechrau: 16:30

Amser Gorffen: 17:30

1. CYFLWYNIAD, SYLWADAU AGORIADOL A DATGAN BUDDIANNAU

1.1. Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

2.1. Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

3.1. **Cytunodd** y Comisiwn ar gofnodion y cyfarfodydd blaenorol a gynhaliwyd ddydd Llun 22 Tachwedd 2021 a dydd Mawrth 30 Tachwedd 2021.

4. MATERION YN CODI

4.1. Rhoddodd yr Ysgrifennydd ddiweddariadau ar Faterion yn codi o gyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ddydd Llun 22 Tachwedd 2021 a dydd Mawrth 30 Tachwedd 2021.

Mater 1 – Gwrandawiadau Cyhoeddus

- 4.2. **Nodwyd** y bydd yr Ysgrifennydd yn cadeirio'r gwrandawriad cyhoeddus cyntaf, a bydd y Comisiynydd Cynorthwyol, Steven Phillips, yn cadeirio'r pedwar arall.

Mater 2 – Penodi Comisiynwyr Cynorthwyol

- 4.3. **Nodwyd** bod pob un o'r pedwar Comisiynydd Cynorthwyol wedi'u penodi ac wedi cwblhau eu sesiwn cynefino. Hefyd, bu'r Comisiynwyr Cynorthwyol yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd gwaith a fu'n edrych ar opsiynau amgen ac yn mapio cynlluniau.

5. COFRESTR RISG

- 5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni, a **nodwyd** bod y newidiadau a **gytunwyd** yn y cyfarfod diwethaf wedi'u gwneud.
- 5.2. **Nodwyd** bod chwe newid i'r gofrestr risg, fel a ganlyn:
- 5.3. Tynnwyd CFfG4 oddi ar y Gofrestr Risg gan fod y pedwar Comisiynydd Cynorthwyol bellach wedi'u penodi.
- 5.4. Cafodd CFfG6 ei ddileu gan fod yr holl sylwadau o'r Cyfnod Ymgynghori Cychwynnol wedi'u cyhoeddi cyn dechrau'r Ail Gyfnod Ymgynghori.
- 5.5. Cafodd CFfG7 ei ddileu oherwydd cafodd y Gorchmynion Llywodraeth Leol eu cyhoeddi cyn diwedd mis Tachwedd 2021.
- 5.6. Diweddarwyd y mesurau lliniaru ar gyfer CFfG8 i adlewyrchu'r sefyllfa cymorth tîm. **Nodwyd** bod un Swyddog Cymorth Tîm wedi gadael y Comisiwn. Bydd y Comisiwn yn penodi Swyddog Cymorth Tîm newydd ac mae'n edrych ar y broses recriwtio.
- 5.7. Diweddarwyd y mesurau lliniaru ar gyfer CFfG16 i adlewyrchu'r oedi o ran y gwrandawiadau cyhoeddus oherwydd yr heriau iechyd cyhoeddus mewn perthynas ag amrywiad Omicron.
- 5.8. Diweddarwyd y mesurau lliniaru ar gyfer CFfG17 i gynnwys y Comisiynwyr Cynorthwyol ymhlith y bobl a fydd yn cynnal profion llif unffordd rheolaidd yn ystod y gwrandawiadau cyhoeddus. **Nodwyd** bod archeb brynu wedi'i gwneud ar gyfer y profion llif unffordd. Hefyd, **nodwyd** y bydd y Comisiwn yn gofyn i bawb wisgo masgiau yn ystod y gwrandawiadau cyhoeddus, ac eithrio wrth gyflwyno, a gwneir eithriadau ar gyfer unigolion sydd wedi'u heithrio'n feddygol.

6. DIWEDDARIAD AR Y GWRANDAWIADAU CYHOEDDUS

- 6.1. Bu'r Comisiwn yn ystyried yr adroddiad dyddiedig 31 Ionawr 2022 gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni.
- 6.2. **Nodwyd** nad oedd y dyddiad a restrwyd ar gyfer y gwrandawriad cyhoeddus yng Nghaerdydd wedi'i ddiweddarau.
- 6.3. **Nodwyd** mai'r gwrandawriad cyhoeddus yng Nghaerdydd sydd â'r nifer fwyaf o archebion ar hyn o bryd.
- 6.4. **Nodwyd** bod y Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu wedi prynu hysbysebion wedi'u targedu ar gyfer y gwrandawriadau cyhoeddus, ac y bydd rhagor o gyhoeddusrwydd cyn y gwrandawriadau cyhoeddus, a allai arwain at archebion munud olaf.
- 6.5. **Nodwyd** bod y Comisiwn Ffiniau i Loegr (BCE) wedi penderfynu cau ei wrandawriadau cyhoeddus awr cyn yr amser cau os nad oes unrhyw archebion. **Cytunwyd** y bydd gwrandawriadau cyhoeddus CFfG yn agored tan 8pm fel y cytunwyd ac a hysbysebwyd yn wreiddiol.
- 6.6. **Gweithredu:** Bydd y Pennaeth Polisi a Rhaglenni yn diweddarau'r adroddiad â'r newidiadau.

7. DYDDIADAU ALLWEDDOL 2022

- 7.1. Bu'r Comisiwn yn ystyried yr adroddiad dyddiedig 31 Ionawr 2022 gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni, a **nodwyd** y dyddiadau allweddol ar gyfer 2022.
- 7.2. **Cytunwyd** y bydd Cyfarfod y Comisiwn i ystyried Opsiynau ac Adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol yn cael ei gynnal dros ddeuddydd ar 15 a 16 Mehefin. **Cytunwyd**, os yw'n bosibl, y bydd y cyfarfodydd yn cael eu mynychu'n bersonol ac fe'u cynhelir yn ystod y dydd.
- 7.3. **Cytunwyd** y bydd Cyfarfod y Comisiwn i ystyried yr Adroddiad ar 26 Gorffennaf yn cael ei gynnal yn gynharach er mwyn peidio â gwrthdaro â gwyliau ysgolion.
- 7.4. **Cytunwyd** y bydd Cyfarfod y Comisiwn i ystyried Opsiynau ar 13 Rhagfyr hefyd yn cael ei gynnal dros ddeuddydd. **Cytunwyd** y bydd yr union ddyddiad yn cael ei benderfynu, maes o law.
- 7.5. **Nodwyd** y bydd CFfG yn cynnal y cyfarfod Rhwng y Comisiynau yn 2022 ac y bydd dyddiad y cyfarfod yn cael ei benderfynu cyn hir.
- 7.6. **Gweithredu:** Bydd y Pennaeth Polisi a Rhaglenni yn diweddarau tabl Dyddiadau Allweddol 2022 ac yn dosbarthu'r fersiwn ddiwygiedig i'r Comisiynwyr a'r Ysgrifenyddiaeth.

8. UNRHYW FUSNES ARALL

- 8.1. **Nodwyd** y bydd y gwrandawiadau cyhoeddus yn cael eu ffrydio'n fyw a'u recordio ac y bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. **Nodwyd** y bydd y gwrandawiadau cyhoeddus yn cael eu ffrydio'n fyw a'u recordio dim ond pan fydd rhywun yn cyflwyno neu'n rhoi tystiolaeth.